Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-880
Ein cyf/Our ref KW/07431/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

5 Tachwedd 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Hydref ynghylch y ddeiseb 'Mae Cymru yn prysur golli ei henw da o ran cerddoriaeth, a'i threftadaeth'.

Fel y gwyddoch, yn dilyn adroddiad 'Taro'r Tant' gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, mae fy swyddogion wedi mynd ati i weithredu mewn ymateb i'r argymhellion. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys comisiynu contractwr annibynnol i gynnal astudiaeth ddichonoldeb i nodi ac asesu opsiynau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau addysg cerddoriaeth yn y dyfodol.

Bu peth oedi o ran cael yr adroddiad terfynol i law ac rydw i'n ddiolchgar am eich amynedd yn y mater hwn. Mae'r astudiaeth nawr wedi'i chwblhau ac mae'r contractwr wrthi'n gorffen yr adroddiad terfynol. Rydw i'n edrych ymlaen at gael yr adroddiad terfynol yn fuan a byddaf yn edrych yn ofalus ar y cynnwys a'r canlyniadau ac yn ystyried sut y bydd addysg cerddoriaeth yn cael ei chyflwyno yng Nghymru yn y dyfodol.

Byddaf yn gwneud yn siŵr y bydd copi o'r adroddiad a f'ymateb iddo yn cael ei hanfon atoch cyn gynted ag y bydd ar gael.

Yn gywir

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.